

ADRODDIADAU YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS TEITHIO LLESOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR HEOL Y DYWYSOGES - BRACLA



Chwefror 2025

CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad	4
1.1 Trosolwg o'r Cynllun	4
1.2 Amcanion y cynllun	4
2.0 Crynodeb o'r Ymgysylltu â'r Cyhoedd	7
2.1 Dulliau Hyrwyddo	7
2.2 C1: Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio wrth deithio o ddydd i ddydd?	9
2.3 C2: Pa anawsterau sydd yna ar hyn o bryd gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?	11
2.4 C3: A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych yn ei wneud ar hyn o bryd?	13
2.5 C4: Pa opsiwn llwybr ydych chi'n ei gefnogi fwyaf?	14
3.0 Casgliad	18
3.1 Beth sy'n digwydd nesaf?	19
4.0 Atodiadau	20
Atodiad A: Copi o arolwg Heol y Dywysoges	20

RHESTR FFIGURAU

Ffigwr 1: Map yn amlinellu ffin y safle a'r gwaith teithio llesol arfaethedig	5
Ffigwr 2: Map yn amlinellu'r opsiynau llawybrau fel rhan o waith teithio llesol arfaethedig	6
Ffigwr 3: Poster i hysbysebu a ddefnyddiwyd ar gyfer y digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb	8
Ffigwr 4: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg	10
Ffigwr 5: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 1	10
Ffigwr 6: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2	12
Ffigwr 7: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2	12
Ffigwr 8: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3	13
Ffigwr 9: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3	14
Ffigwr 10: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4	16
Ffigwr 11: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4	17

RHESTR TABLAU

Tabl 1. Canlyniadau cwestiwn arolwg 1.....	9
Tabl 2. Canlyniadau cwestiwn arolwg 2.....	11
Tabl 3. Canlyniadau cwestiwn arolwg 3.....	13
Tabl 4. Canlyniadau cwestiwn arolwg 4.....	15

1.0 CYFLWYNIAD


- 1.0.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau ymgysylltu cymunedol a ymgwymerwyd yn rhan o'r cynlluniau teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges, Bracla. Mae'r adroddiad yn dangos canlyniadau digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed mis Medi, ac arolwg ar-lein lle rhoddwyd y cyfle i breswylwyr gael dweud eu dweud ynghylch cynlluniau teithio llesol presennol Heol y Dywysoges. Gwnaed pob gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 1.0.2 Mae'r adrannau canlynol yn arddangos y cynlluniau ar gyfer teithio llesol ar hyd Heol y Frenhines, a ddangoswyd i breswylwyr lleol wyneb yn wyneb ac ar-lein, a byddant yn amlinellu prif amcanion cynlluniau o'r fath. Bydd Pennod 2.0 yn cyflwyno deilliannau'r sesiwn ymgysylltu, gan grynhoi canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd yn ystod y digwyddiad cymunedol wyneb yn wyneb ac a wnaed ar gael ar-lein, a dadansoddi'r canlyniadau cyfunol er mwyn penderfynu ar gefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y cynlluniau arfaethedig. Bydd Pennod 3.0 yn darparu casgliad i ganfyddiadau'r adroddiad ac yn amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y cynllun teithio llesol.

1.1 TROSOLWG O'R CYNLLUN


- 1.1.1 Cyflwynwyd Ffigwr 1 a Ffigwr 2 (gweler tudalen 5 a thudalen 6) i breswylwyr yn ystod y digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb a chawsant eu hatodi i'r arolwg ar-lein yn ogystal. Mae'r mapiau'n amlinellu'r ardal astudiaeth a manylion Cam 1 a Cham 2 y cynlluniau ar gyfer teithio llesol ar hyd Heol y Frenhines, ynghyd ag ATR'au cyfochrog presennol a safle arfaethedig Ysgol Bro Ogwr.

1.2 AMCANION Y CYNLLUN

- 1.2.1 Amcanion cynllun teithio llesol Heol y Dywysoges, fel y'u hamlinellir yng nghais i newid WeITAG yw:
- Amcan 1 - Cydlynol: Cysylltu'r ardal brosiect gyda seilwaith teithio llesol presennol ac a gynllunnir, yn fwyaf nodedig, y llwybr Channel View a gynllunnir, er mwyn cyfrannu ymhellach at ddarparu llwybrau y gellir eu defnyddio'n rhwydd.
 - Amcan 2 - Uniongyrchol: Datblygu llwybr teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges sy'n dilyn llinellau dymunedig naturiol ac wedi'u sefydlu er mwyn caniatáu ar gyfer siwrneiau teithio llesol estynedig ac sy'n effeithiol o ran amser drwy gydol Bracla a thuag allan i safleoedd sydd o bwysigrwydd strategol megis canol tref Pen-y-bont ar Ogwr.
 - Amcan 3 - Diogel: Cynllunio llwybr teithio llesol sy'n blaenoriaethu diogelwch drwy leihau'r perygl o wrthdaro rhwng defnyddwyr ac sy'n ystyried pob galw.
 - Amcan 4 - Cyfforddus: Datblygu llwybr teithio llesol sy'n gwella symudiad teithio llesol drwy leihau graddiant serth, darparu goleuo da, a defnyddio arwynebeddau esmwyth sydd wedi cael eu gofalu amdanynt yn dda.
 - Amcan 5 - Deniadol: Dylunio llwybr teithio llesol sy'n cyfrannu at ddyluniad trefol da, a chreu llyfdd effeithiol drwy integreiddio gyda'r ardal gyfagos, gwella profiad teithio rhwng lleoliadau sy'n strategol bwysig, megis canol tref Pen-y-bont ar Ogwr.



Ffigwr 1: Map a gyflwynwyd i breswylwyr yn ystod y digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb ac fel rhan o'r arolwg ar-lein. Mae'r map yn amlinellu ffin ardal astudiaeth Cam 1 (coch) gyda ATR presennol (gwyrdd) a'r safle arfaethedig Ysgol Bro Ogwr (glas).




Ffigur 2: Map a gyflwynwyd i breswylwyr yn ystod y digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb ac fel rhan o'r arolwg ar-lein. Mae'r map yn amlinellu llwybrau (A-E) i'w gael eu hasesu fel rhan o Gam 2 y Cynllun gyda'r ardal astudiaeth gyda ATR'au presennol (gwyrdd) a safle arfaethedig Ysgol Bro Ogwr (glas).

2.0 CRYNODEB O'R YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

- 2.0.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys canlyniadau'r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd fel rhan o'r cynlluniau teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges. Gan fod yr un arolwg ar gael i breswylwyr yn ystod y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ddiweddarach, mae'r ddau set o ganlyniadau wedi cael eu cyfuno ar gyfer eu dadansoddi isod. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 24 o breswylwyr.
- 2.0.2 Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno ac yn dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn ôl trefn y cwestiwn, gan ddefnyddio tablau a siartiau colofn clwstwr er mwyn enghreifftio canlyniadau pob arolwg (wyneb yn wyneb ac ar-lein), a siartiau cylch er mwyn dangos y canlyniadau cyfunol a'r deilliant ar gyfer pob cwestiwn mewn fformat cynhwysfawr.

2.1 DULLIAU O HYRWYDDO

- 2.1.1 Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr strategaethau niferus er mwyn hyrwyddo'r sesiwn ymgysylltu cymunedol gan sicrhau bod cymaint â phosib o breswylwyr wedi cymryd rhan ynddo. Gosodwyd posteri hyrwyddo (Ffigwr 3) mewn ardaloedd traffig uchel o fewn Bracla a'u postio ar-lein cyn y sesiwn. Yn ogystal, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, postïadau bwletin wythnosol i breswylwyr, ac estyn allan drwy grwpiau rhanddeiliaid perthnasol.
- 2.1.2 Cynhaliwyd y sesiwn ymgysylltu cymunedol ddydd Mercher 13eg Tachwedd 2024, 4:30pm-7pm. Er mwyn galluogi i'r nifer mwyaf posib o breswylwyr i fynychu, trefnwyd y sesiwn fel ei fod yn cael ei gynnal oddi allan i oriau gwaith arferol, gan fabwysiadu natur 'galw i mewn' gyda chyflwyniad byr ar y dechrau, a chaniatáu i breswylwyr alw i mewn ar yr adeg oedd fwyaf cyfleus iddynt.
- 2.1.3 Cyn i breswylwyr adael y sesiwn, gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg byr, a wnaed ar gael ar ffurf copïau papur ac ar gael i'w cyrchu drwy god QR, ynghylch eu meddyliau am y cynllun. Gellir gweld y cwestiynau a'r ymatebion yn y tablau isod.
- 2.1.4 Yn dilyn y sesiwn ymgysylltu â'r gymuned, hysbysebwyd yr arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol a phostiadau bwletin i breswylwyr mewn ymgais i ymgysylltu gyda phreswylwyr nad oeddent wedi mynychu'r digwyddiad wyneb yn wyneb. Ymgwymerwyd â'r holl waith hyrwyddo yn Gymraeg a'r Saesneg.



Ar y

Gwael

Ffigwr 3: Enghreifftiau o boster (yn Gymraeg a Saesneg) a arddangoswyd mewn ardaloedd traffig uchel ar hyd a lled Brackla er mwyn hysbysebu'r sesiwn ymgysylltu teithio llesol wyneb yn wyneb (ar y brig), ac yn ddiweddarach, yr arolwg ar-lein a wnaed ar gael am bythefnos wedi'r digwyddiad wyneb yn wyneb (gwaelod).


2.2 C1: PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO WRTH DEITHIO BOB DYDD?

- 2.2.1 Mae cwestiwn cyntaf yr arolwg yn ceisio mesur y defnydd presennol a wneir o deithio llesol gan breswylwyr Bracla yn rhan o'u teithio o ddydd i ddydd. Mae mesur hyn yn galluogi i amcangyfrifon gael eu gwneud o'r galw presennol am seilwaith teithio llesol gwell, y potensial ar gyfer cynyddu teithio llesol, a chymariaethau lefel defnyddio yn y dyfodol er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun teithio llesol.
- 2.2.2 Mae canlyniadau'r arolwg (Tabl 1) yn dangos bod 33% o bobl yn cerdded neu feicio 7 diwrnod yr wythnos fel rhan o'u teithio dyddiol. Nododd 21% pellach eu bod yn cerdded i'r gwaith neu feicio 5-6 diwrnod yr wythnos, 17% 2-4 dydd yr wythnos, a 17% arall unwaith yr wythnos. Mae canlyniadau o'r fath yn dangos bod cyfran sylweddol o'r preswylwyr a gwblhaodd yr arolwg yn defnyddio teithio llesol yn aml fel rhan o'u ffordd o deithio dyddiol.

C1. PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO WRTH DEITHIO BOB DYDD?									
	7 diwrnod yr wythnos	5-6 diwrnod yr wythnos	2-4 diwrnod yr wythnos	Unwaith h yr wythnos	Unwaith bob pythefnos	Unwaith h y mis	Lla i am l	Byt h	Cyfanswm
AROLWG WYNEB YN WYNEB	5	1	1	1	0	0	0	1	9
AR-LEIN AROLWG	3	4	3	3	0	0	1	1	15
CYFUNOL CANLYNIAD AU	8	5	4	4	0	0	1	2	24


Tabl 1. Canlyniadau arolwg cwestiwn 1, "Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu'n beicio wrth deithio bob dydd?", wedi'u rhannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "canlyniadau cyfunol".

- 2.2.3 Dywedodd cyfanswm o 21 o blith 24 o gyfranogwyr eu bod yn cerdded neu feicio o leiaf un waith yr wythnos wrth deithio bob dydd. Mae hyn yn dangos bod gwelliannau yn y dyfodol i'r seilwaith teithio iach ar hyd Heol y Dywysoges yn debygol o gael traweffaith ar nifer sylweddol o bobl.
- 2.2.4 Er gwaethaf hyn, dywedodd 8% o breswylwyr nad oeddent byth yn cerdded nac yn beicio wrth deithio bob dydd. Mae'r ffigwr hwn yn bwysig gan y bydd y grŵp penodol hwn o breswylwyr yn allweddol wrth ddarparu gwybodaeth am y rhesymau dros hyn yn y cwestiwn nesaf.



Ffigwr 4: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg, “Pa mor aml ydych chi’n cerdded neu’n beicio wrth deithio bob dydd?”, wedi’i rannu i’r categorïau “arolwg wyneb yn wyneb” (glas tywyll), “arolwg ar-lein” (oren), a “canlyniadau cyfunol” (gwyrdd).

2.2.5 Mae Ffigwr 4 yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg, wedi’i rannu gan yr atebion a dderbyniwyd yn ystod yr arolwg wyneb yn wyneb, yr arolwg ar-lein a ffigwr cyfunol er mwyn helpu i gael golwg ar y canlyniadau yn eu cyfanrwydd. Mae Ffigwr 5 yn dangos canlyniadau cyfunol mewn siart gylch, gan ddangos yn eglur y lefel uchel o deithio llesol ymysg preswylwyr Bracla.



Ffigwr 5: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg “Pa mor aml ydych chi’n cerdded neu feicio wrth deithio o ddydd i ddydd?”, gan arddangos y categorïau “7 diwrnod yr wythnos” (gwyrdd), “5-6 diwrnod yr wythnos” (gwyrdd llachar), “2-4 diwrnod yr wythnos” (glas tywyll), “unwaith yr wythnos” (glas golau), “llai aml” (pinc), a “byth” (oren). Mae’r categorïau na dderbyniodd unrhyw ymateb wedi eu heithrio o’r siart. Y categorïau hyn yw “unwaith bob pythefnos” (porffor tywyll) ac “unwaith y mis” (porffor).


2.3 C2: PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI?

- 2.3.1 Wrth ystyried canlyniadau y cwestiwn arolwg cyntaf, mae'r ail gwestiwn yn mesur yr anawsterau mae'r preswylwyr yn ei gredu sy'n eu rhwystro rhag cerdded a beicio mwy wrth deithio bob dydd. Mae'r canlyniadau'n dangos mai diffyg cyfleusterau teithio llesol (29%) yw'r anhawster mwyaf cyffredin a wynebwr, wedi'i ddilyn gan ddiffyg llefydd diogel i groesi (27%) a chymryd gormod o amser (16%), cyfleustra (13%), anawsterau eraill na restrwyd yn yr arolwg (11%), ac yn olaf, rhesymau iechyd (4%).
- 2.3.2 Dylid nodi na ddarparwyd blwch ticio i restru anawsterau eraill i ymatebwyr ar-lein fel rhan o'r cwestiwn hwn, ac yn lle hynny, fe'u darparwyd gyda chyfle i nodi unrhyw sylwadau pellach ar ddiwedd yr arolwg.

C2. PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)						
	Rhesymau iechyd	Cyfleus	Croesfannau diogel	Prinder cyfleusterau teithio llesol	Cymryd gormod o amser	Arall
AROLWG AR-LEIN	1	3	4	4	1	3
AROLWG AR-LEIN	1	3	8	9	6	2
CANLYNIADAU CYFUNOL	2	6	12	13	7	5


Tabl 2. Canlyniadau cwestiwn arolwg 2, "Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?", wedi eu rhannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "canlyniadau cyfunol".

- 2.3.3 Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 2 yn dangos bod amrywiaeth o ffactorau'n rhwystro trigolion Bracla rhag cerdded a beicio mwy wrth deithio o ddydd i ddydd. Mae'r detholiad o ddiffyg cyfleusterau teithio llesol fel y prif anhawster yn dangos bod y cynlluniau arfaethedig ar gyfer llwybrau teithio llesol a seilwaith a gyflwynwyd yn ystod yr ymgysylltu cymunedol ac ar-lein fel rhan o'r arolwg yn debygol o gael traweffaith bositif ac annog mwy o gerdded a beicio yn yr ardal. Mae'r anawsterau o ran diffyg croesfannau diogel a chyfleus hefyd yn debygol o gael eu heffeithio'n bositif gan y cynlluniau teithio llesol gan y bydd llwybrau ychwanegol yn gwella diogelwch defnyddwyr a chreu rhwydwaith teithio llesol mwy uniongyrchol a deniadol. Nododd un preswlydd yn yr arolwg ar-lein bod "Beicio'n anodd i rai nad ydyn nhw'n beicio. Mae hyn oherwydd arwyneb gwael y llwybrau beicio, hyd a chysylltedd rhwydwaith gwael, gofod anaddas a gwrthdaro gyda cherddwyr, mannau croesi anodd a rhyngwynebau gyda llwybrau a ffyrdd, seilwaith cyffyrdd gwan." Mae'r sylw hwn yn darparu tystiolaeth bellach bod galw am seilwaith teithio llesol gwell yn yr ardal.



Ffigwr 6: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2, “Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?”, wedi eu rhannu i’r categorïau “arolwg wyneb yn wyneb” (glas tywyll), “arolwg ar-lein” (oren), a “canlyniadau cyfunol” (gwyrdd).

2.3.4 Mae Ffigwr 6 yn cynrychioli canlyniadau cwestiwn 2, gan fod o gymorth i weld y prif anawsterau i deithio llesol a ddewiswyd yn yr arolygon wyneb yn wyneb, ar-lein a chyfunol. Mae Ffigwr 7 yn arddangos yn eglur y canlyniadau arolwg cyfunol ar gyfer cwestiwn 2, gan ddangos mai diffyg cyfleusterau teithio llesol (29%), diffyg mannau croesi diogel (27%), a’i fod yn cymryd gormod o amser (16%) yw’r anawsterau mwyaf cyffredin sy’n wynebu preswylwyr Brackla.



Ffigwr 7: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2, “Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?”, gan arddangos y categorïau “rhesymau iechyd” (gwyrdd), “cyfleuster” (gwyrdd llachar), “diffyg croesfannau diogel” (glas tywyll), “diffyg cyfleusterau teithio iach” (glas golau), “cymryd gormod o amser” (porffor), ac “eraill” (pinc).


2.4 C3: A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG I GERDDED NEU FEICIO YN AMLACH NAG YR YDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD?

2.4.1 Ar ôl amlygu'r anawsterau cyfredol a wynebwr wrth gerdded a beicio, mae'r arolwg yn gofyn i'r preswylwyr a fyddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy na'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae canlyniadau'r arolwg cyfunol yn dangos bod 50% o breswylwyr sydd wedi cwblhau'r arolwg wedi dweud y byddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy, gan adael 38% yn dweud na fyddai'n annog hyn a 12% heb benderfynu ynghylch hyn.

C3. A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG I GERDDED NEU FEICIO YN AMLACH NAG YR YDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD?			
	Ydw	Na	HEB BENDERFYNU
AROLWG WYNEB YN WYNEB	5	3	1
AROLWG AR-LEIN	7	6	2
CANLYNIADAU CYFUNOL	12	9	3


Tabl 3. Canlyniadau cwestiwn arolwg 3, "A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd? wedi ei rannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "chanlyniadau cyfunol".

2.4.2 Mae'r canlyniadau a arddangosir yn Nhabl 3 yn asesiad eglur o'r farn gyhoeddus ynghylch y cynlluniau ar gyfer teithio llesol ym Mracla ac yn dangos y byddai'r cynllun yn annog y mwyafrif o'r preswylwyr lleol i gynyddu eu lefel o deithio llesol. Mae'r asesiad hwn yn unol gyda chanlyniadau'r arolwg a gyflwynwyd ac a ddadansoddwyd yn Adrannau 2.2 a 2.3. Dylid nodi, fodd bynnag bod 38% o breswylwyr yn dweud na fyddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy na'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd.



Ffigur 8: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3, "A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud yn barod?", wedi'i rannu yn "byddai" (glas), "na fyddai" (coch), a "heb benderfynu" (oren).

- 2.4.3 Mae Ffigwr 9 yn cyflwyno canlyniadau cwestiwn 3 wedi eu rhannu yn ôl y math o arolwg (ar-lein, wyneb yn wyneb a chyfunol), gan ddangos bod 56% o ymatebwyr wyneb yn wyneb wedi dweud y byddai'r cynllun yn eu hannog i gynyddu eu lefel o deithio llesol, tra mai dim ond 47% o ymatebwyr ar-lein a ddwedodd yr un fath. Mae Ffigwr 9 yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol cwestiwn 3, gan ddangos yn eglur bod y mwyafrif o breswylwyr yn credu y byddai cynllun teithio llesol Heol y Dywysoges yn eu hannog i gerdded a beicio mwy na'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd.



Ffigwr 9: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3, “A fydd y cynllun hwn yn eich annog chi i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych yn ei wneud ar hyn o bryd?”, wedi'i rannu yn “bydd” (glas), “na fydd” (coch), a “heb benderfynu” (oren).

2.5 C4: PA OPSIWN LLWYBR YDYCH CHI'N EI GEFNOGI FWYAF?


- 2.5.1 Mae'r cwestiwn arolwg olaf yn gofyn i breswylwyr pa opsiwn llwybr maent yn ei gefnogi fwyaf, er mwyn cael syniad uniongyrchol o gefnogaeth gan breswylwyr i'r cynllun teithio llesol ar hyd yr Heol y Dywysoges. Llwybr B (16%), Llwybr C (16%), a Llwybr E (16%) oedd yr opsiynau llwybrau mwyaf poblogaidd, fodd bynnag, yr opsiwn a ddewiswyd fwyaf oedd “Dim un” (36%). Fel y nodwyd isod, oherwydd camgymeriad, ni ddarparwyd ymatebwyr i'r arolwg ar-lein gydag opsiwn “Llwybr E”, gan effeithio'n uniongyrchol ar y canlyniadau'n gyffredinol ac arwain at gyfradd dethol lai ar gyfer yr opsiwn yna o ran llwybr.

C4. PA OPSIWN LLWYBRAU YDYCH CHI'N EI GEFNOGI FWYAF? (DEWISWCH UN OS GWELWCH YN DDA)						
	Llwybr A	Llwybr B	Llwybr C	Llwybr Ch	Llwybr D	Dim
AROLWG WYNEB YN WYNEB	0	1	1	1	4	3
AROLWG AR-LEIN	1	3	3	2	0*	6
CANLYNIADAU CYFUNOL	1	4	4	3	4*	9

* Ni ddarparwyd opsiwn "Llwybr E" yn yr arolwg ar-lein.

Tabl 1. Canlyniadau cwestiwn 4 yr arolwg, "Pa opsiwn llwybr ydych chi'n ei gefnogi fwyaf?", wedi'u rhannu gyda'r categorïau "wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "chanlyniadau cyfunol".


- 2.5.2 Er gwaetha'r ffaith i 50% o breswylwyr ddweud y byddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded neu feicio mwy, dywedodd 36% nad oeddent yn ffafrio unrhyw opsiwn ar gyfer y llwybr.
- 2.5.3 Wedi cwblhau'r cwestiwn olaf yma rhoddwyd cyfle i'r preswylwyr wedyn gyfle i roi unrhyw sylwadau pellach oedd yn berthnasol i'r cynllun. Fe wnaeth nifer o breswylwyr gyfiawnhau eu dewis o lwybr yng nghwestiwn 4 drwy ddweud eu bod wedi dewis yr hyn roedden nhw'n credu oedd y llwybr mwyaf diogel ac uniongyrchol, gan ddangos bod y ffactorau hyn yn cael eu hystyried fel y rhai mwyaf pwysig gan nifer o breswylwyr. Mynegodd dau breswylwr yr angen am gael cyswllt ffurfiol gyda'r ystâd ddiwydiannol, ac awgrymodd un arall welliannu i groesfannau yn ardal Singletons. Dywedodd dau breswylwr arall nad oeddent yn cefnogi'r cynllun gan eiriol am ddefnyddiau amgen i'r ariannu.
- 2.5.4 Mae'r sylwadau ychwanegol a wnaed ar ddiwedd yr arolwg yn dynodi bod barn y preswylwyr ynghylch y cynllun teithio llesol ac opsiynau llwybrau posib yn rhanedig. Roedd y rhai oedd yn cefnogi'r cynllun yn gwerthfawrogi llwybr diogel ac uniongyrchol fel y flaenoriaeth uchaf, tra oedd preswylwyr eraill o'r farn bod yna leoliadau mwy priodol ar gyfer y llwybr neu y gellid gwneud defnydd gwell o'r ariannu. Bydd yr holl sylwadau a wnaed ar yr arolwg yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i fod yn sail i drafodaethau ac ystyriaethau ynghylch teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges ac yn ehangach ym Mracla.



* Ni ddarparwyd opsiwn "Llwybr E" yn yr arolwg ar-lein.

Ffigwr 10: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4, "Pa opsiwn llwybr ydych chi'n ei gefnogi fwyaf?", wedi'i rannu yn "Canlyniadau cyfunol" (ar y brig), "Arolwg ar-lein" (canolig), ac "Arolwg wyneb yn wyneb" (gwaelod). Mae opsiynau'r llwybr yn cael eu dangos fel 'Llwybr A' (Gwyrdd), 'Llwybr B' (Glas), 'Llwybr C' (Melyn), 'Llwybr D' (Llwyd), 'Llwybr E' (Oren), a 'Dim un' (Glas tywyll).

2.5.5 Mae Ffigwr 10 yn cynrychioli canlyniadau'r cwestiwn arolwg terfynol a rannwyd yn ôl y math o arolwg (ar-lein, wyneb yn wyneb a chyfunol), gan ddangos mai "Dim un" oedd yr opsiwn llwybr mwyaf poblogaidd, gyda chyfran o 36% o ymatebion. Yn dilyn hyn, Llwybr B (16%), Llwybr C (16%), a Llwybr E (16%) oedd yr opsiynau llwybr mwyaf poblogaidd. Fel y nodwyd isod, oherwydd camgymeriad, ni ddarparwyd ymatebwyr i'r arolwg ar-lein gydag opsiwn "Llwybr E", gan effeithio'n uniongyrchol ar y canlyniadau cyffredinol ac arwain at gyfradd dethol lai ar gyfer yr opsiwn yna o ran llwybr.



* Ni ddarparwyd opsiwn "Llwybr E" yn yr arolwg ar-lein.

Ffigwr 11: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4, "Pa opsiwn llwybr ydych chi'n ei gefnogi fwyaf?", wedi'u rhannu gyda 'Llwybr A;' (Gwyrdd), 'Llwybr B' (Glas), 'Llwybr C' (Melyn), 'Llwybr D' (Llwyd), 'Llwybr E' (Oren) a 'Dim un' (Glas tywyll).

3.0 CASGLIAD

- 3.0.1 Cyflwynwyd a dadansoddwyd deilliannau'r ymgysylltu cymunedol diweddar yr ymgwymerwyd ag ef fel rhan o'r cynlluniau teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges, Bracla. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac mewn sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb, a all fod wedi arwain at rhai ymatebion wedi eu dyblygu. Fodd bynnag, fe arweiniodd at gyfran o gyfranogiad cymunedol gyda barn yn cael ei mynegi o blaid a cyn erbyn y cynllun yn ogystal.
- 3.0.2 Mae canlyniadau arolwg cyfunol yr ymgysylltu yn dangos bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn cerdded neu'n beicio 7 diwrnod yr wythnos fel rhan o'u teithio o ddydd i ddydd (33%), wedi'i ddilyn gan gerdded a beicio 5-6 diwrnod (21%), 2-4% (9%), ac unwaith yr wythnos, ac arall 17% unwaith yr wythnos. Mae canlyniadau o'r fath yn dangos bod cyfran sylweddol o'r preswylwyr a gwblhaodd yr arolwg yn defnyddio teithio llesol yn aml fel rhan o'u ffordd o deithio dyddiol.
- 3.0.3 Er gwaethaf y lefel uchel yma o ddefnydd, nododd y preswylwyr hefyd bod amrywiaeth o anawsterau yn eu rhwystro rhag defnyddio mwy o deithio llesol fel rhan o'u teithio o ddydd i ddydd. Amlygodd y canlyniadau ddiffyg cyfleusterau teithio llesol (29%) fel yr anhawster mwyaf a wynebwyd, wedi'i ddilyn gan ddiffyg lle diogel i groesi (27%), cymryd gormod o amser (16%), a chyfleustra (13%). Mae'r detholiad o anawsterau o'r fath fel y rhai mwyaf cyffredin yn awgrymu bod y cynlluniau arfaethedig ar gyfer llwybrau teithio llesol ychwanegol a seilwaith yn debygol o gael traweffaith bositif ac annog mwy o gerdded a beicio yn yr ardal, fodd bynnag, mae'r angen am ystyried newidiadau i'r cynllun er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau o'r fath mewn ffordd well yn parhau.
- 3.0.4 O ran cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun, dywedodd, 50% o breswylwyr y byddai'r cynlluniau yn eu hannog i gerdded a beicio mwy, dywedodd 38% na fyddent, ac roedd 12% heb benderfynu ar y mater hwn. Mae'r canlyniadau'n dangos bod hanner y preswylwyr gafodd eu holi yn cefnogi'r cynllun ar gyfer teithio llesol ar hyd Heol y Dywysoges, gan ddangos natur gynhennus y cynllun a theithio llesol yn ei gyfanrwydd o fewn yr ardal.
- 3.0.5 Er gwaetha'r ffaith fod 50% o breswylwyr wedi mynegi cefnogaeth i gynllun teithio llesol Heol y Dywysoges, dywedodd 36% na fyddent yn hoffi llwybr pan ofynnwyd iddynt beth fyddai eu llwybr dewisol. Yn dilyn hyn, Llwybr B (16%), Llwybr C (16%), a Llwybr E (16%) oedd y llwybrau mwyaf poblogaidd o'r holl opsiynau a gyflwynwyd i breswylwyr. Dylid nodwyd isod bod camgymeriad wedi arwain at beidio â darparu un opsiwn "Llwybr E" i ymatebwyr yr arolwg ar-lein, gan effeithio'n uniongyrchol ar y canlyniadau cyffredinol ac arwain at gyfradd dethol lai ar gyfer yr opsiwn yna o lwybr. Dylid rhoi ystyriaeth i'r camgymeriad yma wrth adolygu'r canlyniadau uchod a'u traweffaith ar ddadansoddi llwybr. Ar y cyfan, mae'r canlyniadau yn datgelu natur gynhennus y cynllun yn ei gyfanrwydd, a manylion y cynllun megis dethol llwybr.
- 3.0.6 Mae'r crynodeb hwn yn adlewyrchu adborth y gymuned ac mae'n darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r heriau a'r safbwyntiau sydd angen eu hystyried wrth werthuso'r cynllun arfaethedig.

3.1 BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

- 3.1.1 Casglwyd llawer o adborth positif o'r arolygon yn seiliedig ar y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cynnig cyfle i'r mynychwyr ehangu eu safbwyntiau a'u barn ynghylch y cynnig, cyfle nad oedd yr arolygon yn seiliedig ar yr holiaduron yn ei gynnig. Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegir, yr hoffterau a ddatganwyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth adolygu, lle maent yn berthnasol, amcanion y cynllun, deilliannau'r cynllun, a lle mae'n ymarferol, maent wedi cyfrannu at ddyluniad gwell.
- 3.1.2 Mae'r Rhaglen Teithio Llesol yn brosiect parhaus dros sawl blwyddyn sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru ac yn ddibynol ar broses ymgeisio am grant blynyddol. O ganlyniad, ni ellir darparu llwybrau sengl, yn arbennig rhai sydd yn hir iawn, gam wrth gam oherwydd yr ariannu. Nid yw sesiynau ymgysylltu o reidrwydd yn arwain at gynllun yn cael ei ariannu yn y flwyddyn y mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu. Mae'r budd o ddatblygu cynlluniau ac ymgysylltu gyda chymunedau yn eu cylch yn rhan hanfodol o broses gynllunio ymlaen y cyngor ac yn bodloni gofynion datblygu'r cynllun a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.
- 3.1.3 Mae ceisiadau ar gyfer cynlluniau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol ac yn cael eu cymeradwyo ar y sail eu bod yn cael eu darparu yn ystod un flwyddyn ariannol; dyw hi ddim bob amser yn bosib i brosiectau sy'n mynd drwy'r broses dichonolrwydd, creu cynlluniau manwl a'u rhoi ar waith o fewn yr amserlenni a ganiateir. Y Rhaglen Cynllun Llesol yw'r ymrwymiad teithio strategol cyfredol mwyaf ac fe'i hystyrir yn hanfodol er mwyn annog 'newid dulliau teithio' o ddibynnu ar gerbydau modur preifat at ddulliau cynaliadwy megis cerdded a beicio.
- 3.1.4 Mae cynlluniau teithio Llesol yn cyfrif am y rhan helaethaf o raglen teithio strategol y cyngor. Mae ymgysylltu gyda'r cyhoedd fel rhan o'r rhaglen datblygu cynllun yn sail i broses gwneud penderfyniadau'r cabinet. Bydd deilliannau'r broses ymgysylltu yma yn cyflawni'r pwrpas hwn pan ofynnir i'r cabinet gymeradwyo adroddiad ar brosiectau teithio strategol yn y fwrdeistref sirol, ac y bydd cynllun teithio Llesol Heol y Dywysoges, fwy na thebyg, yn rhan ohono yn y dyfodol agos.
- 3.1.5 Rhoddir diweddariadau rheolaidd i aelodau ynghylch y cynllun, tra'n croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ac adborth a allai fod gan breswylwyr.
- 3.1.6 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu'n ddwyieithog drwy wefan y cyngor.

4.0 ATODIADAU

ATODIAD A: COPI O AROLWG HEOL Y DYWYSOGES



SESIWN YMGYSYLLTU CYMUNEDOL BRACLA

13/11/2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn archwilio cerdded a beicio ym Mracla. Byddem wrth ein bodd yn clywed am eich profiadau gyda theithio llesol a'ch barn ar y newidiadau arfaethedig i'ch ardal chi. Diolch am eich amser, rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr.

Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio wrth deithio bob dydd?

Amllder	Ticiwch os gwelwch yn dda
7 diwrnod yr wythnos	
5-6 diwrnod yr wythnos	
2-4 diwrnod yr wythnos	
Unwaith yr wythnos	
Unwaith bob pythefnos	
Unwaith y mis	
Llai aml	
Byth	

Pa anawsterau sydd yna o ran cerdded neu feicio yn eich ardal chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Rhesymau iechyd	
Cyfleustra	
Prinder croesfannau diogel	
Prinder cyfleusterau teithio llesol	
Cymryd gormod o amser	

Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	
----------------------------------	--

A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio yn amlach nag yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

Ticiwch os gwelwch yn dda		
Ydw	Nac ydw	Heb benderfynu

Pa opsiwn llwybrau ydych chi'n ei gefnogi fwyaf? (dewiswch un os gwelwch yn dda)

Opsiwn	Ticiwch un
Llwybr A	☐
Llwybr B	☐
Llwybr C	☐
Llwybr Ch	☐
Llwybr D	☐
Dim	☐

Darparwch reswm dros eich dewis os gwelwch yn dda: